




# Gwella pridd ar gyfer Perllan

Mewn perllan mae 3 phrif fath o ronynnau pridd; clai, tywod a silt (llaid). Mae gan bob un o'r rhain briodweddau a chyfansoddiadau gwahanol. Mae canran pob math o ronyn mewn cymysgedd yn creu gwahanol briodweddau pridd. Er enghraifft, mae cymysgedd cyfartal o'r tri yn creu priddglai, neu bridd llwyd.


Gellir dangos y gwahaniaeth yn y gweddau pridd hyn yn y triongl pridd\*:



\*Triongl Gwead Pridd USDA



## Mathau o bridd



### Pridd clai

Mae gan briddoedd clai dros 25% o glai yn eu cyfansoddiad, fe'u gelwir yn briddoedd trwm. Gall pridd clai fod yn ffrwythlon iawn gan ei fod yn dal maetholion yn dda ond mae hefyd yn tueddu i ddal llawer o ddŵr felly gall fod yn wlyb iawn ac yn araf i ddraenio. Mae pridd clai yn cywasgu'n hawdd pan fo rhywun yn sefyll arno tra ei fod yn wlyb ac mae'n caledu yn y gwres. Gallwch ddweud yn hawdd a oes gennych bridd clai gan ei fod yn taenu'n hawdd ac mae'n ludiog pan fo'n wlyb.

### Pridd silt

Mae priddoedd silt yn tueddu i gynnwys gronynnau pridd o faint canolig. Mae hyn yn eu galluogi i fod yn ffrwythlon ac wedi'u draenio'n dda ond yn dal mwy o leithder na phridd tywodlyd. Maen nhw'n hawdd eu cywasgu ac felly mae'n anodd gweithio gyda nhw. Mae pridd silt yn brin, nid yw'n mynd yn dalpau'n hawdd ac mae ganddo wead llithrig.

### Pridd tywodlyd

Mae gan bridd tywodlyd gyfran uchel o dywod ac ychydig iawn o glai, fe'u gelwir yn briddoedd ysgafn. Mae'r pridd hwn yn draenio'n gyflym ar ôl glaw ac felly mae angen mwy o ddyfrio arno. Mae priddoedd tywodlyd hefyd yn isel o ran maetholion gan eu bod yn cael eu golchi i ffwrdd gan y glaw. Gallwch deimlo'r gronynnau tywod yn y pridd pan gaiff ei rwbio rhwng eich bysedd.

### Priddglai

Mae priddglai'n cynnwys cymysgedd o'r tri math o wead pridd: clai, tywod a silt. Dyma'r pridd delfrydol gan ei fod yn osgoi eithafion pob math o bridd. Mae'r pridd yn ffrwythlon, wedi'i ddraenio'n dda ac mae'n hawdd gweithio gydag ef gan nad yw'n cael ei gywasgu'n hawdd.



## Gweithio gyda gwahanol fathau o bridd

### Pridd clai

Er mwyn gwella pridd clai, gellir ychwanegu deunydd organig i dorri'r clai i mewn i friwsion ar wahân. Mae hyn yn caniatáu i'r dŵr a'r maetholion a gedwir yn y pridd fod yn fwy hygyrch i wreiddiau planhigion. Mae'r ychwanegiad hwn hefyd yn gwella'r pridd drwy ei wneud yn llai tebygol o gywasgu, felly mae'n dod yn haws gweithio gydag ef.

### Pridd silt

Mae priddoedd silt yn dueddol o gael eu cywasgu'n hawdd a golchi i ffwrdd oherwydd ansefydlogrwydd gronynnau'r pridd. Er mwyn gwella hyn, gellir ychwanegu deunydd organig sy'n rhwymo'r gronynnau silt i mewn i friwsion mwy sefydlog.

### Pridd tywodlyd

Mae priddoedd tywodlyd yn gofyn am ychwanegu llawer o ddeunydd organig er mwyn gwella eu ffrwythlondeb, gan fod hyn yn gwella gallu'r pridd i ddal dŵr a maetholion. Efallai y bydd angen gwrteithiau hefyd i roi hwb i blanhigion.

### Priddglai

Mae priddgleiau'n dueddol o fod yn gymysgedd perffaith o'r tri phridd ac nid oes angen llawer o waith arny'n nhw. Fodd bynnag, mae ychwanegu ychydig bach o ddeunydd organig drwy gylchoedd tomwellet yn dal i fod yn fuddiol wrth gynnal a chadw'r pridd dros sawl blwyddyn.

Gellir gwella priddoedd dros amser; bydd y goeden yn yr un man am ddegawdau ac felly bydd ychwanegiadau parhaus o ddeunydd organig, yn bennaf ar ffurf tomwellet (deunydd fel rhisgl sy'n pydru, dail neu naddion pren) yn helpu i gadw gwreiddiau'n iach. Bydd system wreiddiau iach hefyd yn helpu i ddal dŵr a maetholion yn y pridd.

### Chwilio am ragor o adnoddau dysgu, gwybodaeth, neu ddata?

Cysylltwch ag: [addydg@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk](mailto:addydg@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk) os gwelwch yn dda, neu ewch i <https://cyfoethnaturiol.cymru/dysgu>

Am fformatau gwahanol; print bras, neu ieithoedd gwahanol, cysylltwch ag:  
[ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk](mailto:ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk)  
**0300 065 3000**